

GWEITHDREFN

Teitl:	Ansawdd Data	
Maes Arfer / Busnes:	Is-adran Gwasanaethau Digidol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Ansawdd Data ac Archwilio	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	16/10/2013	
Adolygwyd Ddiwethaf:	23/12/2019	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Rhagfyr 2021	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	08	Y Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Gwella ansawdd data yn ein systemau plismona gan wella penderfyniadau, cynyddu perfformiad a lleihau risg i ddiodefwyr a thystion i droseddau.

CANLLAWIAU:

Mae'r weithdrefn a'r canllawiau hyn yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Data SEWNIC sy'n nodi'n glir y safonau ansawdd sy'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol gan bob un sy'n mewnbynnu gwybodaeth yn benodol ar gyfer Niche RMS. Mae'n cadarnhau sut y bydd yr Heddlu, ynghyd â'i staff a'i bartneriaid, yn canolbwyntio'i ymdrechion ar wella a chynnal ansawdd data.

Mae'n rhaid i'r holl Ddata Plismona a gwybodaeth gydnabod Arweiniad MoPI sy'n seiliedig ar Egwyddorion 3 a 4 y Ddeddf Diogelu Data. Mae'n nodi bod yn rhaid i holl wybodaeth yr heddlu gydymffurfio â'r egwyddorion ansawdd data canlynol:

Mae'n rhaid i'r holl ddata fod:

- yn gywir
- yn ddigonol
- yn berthnasol
- yn brydlon

Bydd yn hyn sicrhau bod y data a'r wybodaeth yn addas i'r diben. Cyfrifoldeb pob Swyddog a phob aelod o'r Staff sy'n mewnbynnu'r data yw sicrhau cydymffurfiaeth ac mae'n RHAID iddynt gadw at BOB UN o'r safonau sydd yn y ddogfen safonau gofynnol.

Bydd pob aelod o staff yn ymgyswrtu â'r safonau gofynnol yn adran 5 o Safonau Ansawdd Data SEWNIC. Cyfrifoldeb pob aelod o'r staff yw derbyn perchnogaeth am unrhyw ddata a ddefnyddir a mewnbynnu gwybodaeth i holl systemau'r Heddlu, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion sefydliadol o ran cywirdeb data a chydymffurfiaeth â safonau MoPI.

Rôl y Rheolwyr a'r Goruchwylwyr fydd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol yn adran pump o Safonau Ansawdd Data SEWNIC. Bydd rhestr o'r holl staff sy'n gyfrifol am fewnbynnu data gwael ar gael i reolwyr a staff er mwyn iddynt gymryd camau unioni.

Mae Safonau Ansawdd Data SEWNIC sy'n cwmpasu Niche RMS yn berthnasol i Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru. Y Tîm Ansawdd Data sy'n gyfrifol am fonitro'r safonau hyn a dod o hyd i ddefnyddwyr sy'n creu data gwallus o fewn systemau craidd.

GWEITHDREFN:

Mae'n rhaid i'r holl Ddata Plismona a gwybodaeth gydnabod Arweiniad MoPI sy'n defnyddio Egwyddorion 3 a 4 y Ddeddf Diogelu Data. Mae'n nodi bod yn rhaid i holl wybodaeth yr heddlu gydymffurfio â'r egwyddorion ansawdd data canlynol:

Mae'n RHAID i ddata fod yn gywir – mae'n rhaid bod yn ofalus wrth gofnodi gwybodaeth a, lle y bo'n briodol, mae'n rhaid cofnodi ffynhonnell y wybodaeth hefyd. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd y wybodaeth, mae'n rhaid ceisio eglurhad gan y ffynhonnell. Mae'n rhaid cywiro gwybodaeth anghywir cyn gynted â phosibl. Wrth sicrhau cysondeb, mae'n bwysig PEIDIO â dileu gwybodaeth hanesyddol a all fod yn arwyddocaol (megis manylion cyfeiriadau blaenorol).

Mae'n RHAID i'r data fod yn ddigonol – mae'n rhaid i wybodaeth a gofnodir fod yn gywir ac yn ddigonol at y diben plismona y mae'n cael ei phrosesu ar ei gyfer. Natur y digwyddiad fydd yn pennu'r wybodaeth sy'n berthnasol (e.e. yn amlwg bydd angen mwy o wybodaeth gan dyst i ddigwyddiad angheuol na digwyddiad traffig ffyrdd dibwys). Mae'n rhaid i'r wybodaeth a gofnodir fod yn hawdd i bobl eraill ei deall.

Mae'n RHAID i ddata fod yn berthnasol – mae'n rhaid i'r wybodaeth a gofnodir fod yn berthnasol i'r diben plismona. Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng barn a ffeithiau.

Mae'n RHAID i ddata fod yn brydlon – mae'n rhaid cofnodi gwybodaeth yn ddi-oed yn y maes busnes perthnasol yn unol â'r amserlenni cytunedig.

Gellir adnabod swyddogion a staff sy'n methu cydymffurfio â'r safonau sy'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol ganddynt drwy adroddiadau ymchwiliadau Cudd-wybodaeth Busnes. Bydd yr adroddiadau Cudd-wybodaeth Busnes hyn yn cynorthwyo rheolwyr a goruchwylwyr i fod yn fwy gwybodus am faterion cydymffurfio ac i nodi gofynion hyfforddiant pellach neu hyfforddiant unioni. Bydd yr adroddiadau Ansawdd Data yn darparu tystiolaeth er mwyn i brosesau gallu gael eu hystyried mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio neu fethiant parhaus.

DEDDFWRIAETH A RHEOLIADAU:

- Gweithdrefn Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu
- [Deddf Diogelu Data 2018](#)
- [Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990](#)
- [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)